Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Strwythuredig 2021 (Cam Dau) – Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Ariannol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2776A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 4

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu 7

Rheoli adnoddau ariannol 19

Atodiadau

Atodiad 1 – cynnydd yn erbyn argymhellion blaenorol 25

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig cam dau yr Archwilydd Cyffredinol yn 2021 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi'i fwriadu i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Fe wnaeth ein hadroddiad asesu strwythuredig cam un ar gyfer 2021 ystyried trefniadau cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd a sut y mae'r rhain yn helpu i osod y sylfeini ar gyfer adferiad effeithiol.

2 Fe wnaeth pandemig COVID-19 hi'n ofynnol i gyrff y GIG fynd ati'n gyflym i addasu eu trefniadau llywodraethu corfforaethol a'u trefniadau penderfynu i sicrhau bod camau gweithredu amserol yn cael eu cymryd i ymateb i'r ymchwydd yn y galw brys o ganlyniad i COVID-19 ac i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Fe wnaeth ein hadroddiad ar asesiad strwythuredig 2020 ystyried trefniadau llywodraethu diwygiedig y Bwrdd Iechyd ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Medi 2020.

3 Mae cyrff y GIG wedi parhau i ymateb i'r heriau parhaus a gyflwynir gan COVID-19, gan hefyd ddechrau bwrw ymlaen â chynlluniau i ailosod ac adfer gwasanaethau yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig. Felly, cafodd ein gwaith asesu strwythuredig yn 2021 ei ddylunio yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig gan felly sicrhau dull digon pragmatig i helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol gan hefyd leihau i'r eithaf yr effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i COVID-19.

4 Mae ail gam ein hasesiad strwythuredig yn 2021 wedi ystyried sut y mae trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol wedi addasu dros y 12 mis diwethaf. Mae ffocws allweddol y gwaith wedi bod ar y trefniadau corfforaethol ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rydym hefyd wedi ystyried sut y mae busnes a ohiriwyd yn 2020 wedi cael ei adfer a sut y mae gwersi a ddysgwyd o'r pandemig yn dylanwadu ar drefniadau at y dyfodol i sicrhau llywodraethu da a chyflawni gwerth am arian. Rydym hefyd wedi ceisio cael trosolwg o'r modd y mae'r Bwrdd wedi bod yn craffu ar ddatblygu a chyflawni Cynllun Adfer Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021-22.

## Negeseuon allweddol

5 Ar y cyfan, canfuom fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau, ei fod yn ymrwymedig i wasanaethau o ansawdd da a lles staff, a bod ganddo gynlluniau sydd wedi datblygu'n dda ac sydd bellach yn cael eu monitro'n rheolaidd. Mae nifer o ddulliau arloesol wedi cael eu mabwysiadu i roi cymorth gyda chraffu a sicrwydd, ac er bod trefniadau gweithredol ar gyfer llywodraethu risg ac ansawdd wedi achosi rhai risgiau, mae camau i'w gwella bellach ar waith. Er bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau ariannol

arwyddocaol, mae wedi cynnal rheolaethau ariannol effeithiol ac mae trefniadau monitro a llunio adroddiadau'n gadarn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n galed i gyflawni adferiad ariannol ond mae'n rheoli nifer o risgiau ac mae'r broses gyflawni'n cael ei rhwystro gan gapasiti gweithredol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer arbedion cylchol.

6 Mae'r Bwrdd yn parhau i gynnal busnes mewn ffordd agored a thryloyw. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal trefniadau llywodraethu da, gyda phwyllgorau'n gweithio'n dda ac yn addasu'n briodol i leihau'r baich ar staff. Mae gwybodaeth i ategu prosesau craffu a sicrwydd yn gynhwysfawr ac fe wnaed defnydd da o gyfleoedd i friffio aelodau annibynnol. Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i adolygu ei effeithiolrwydd ac mae wedi gwneud nifer o newidiadau cadarnhaol i strwythurau ei bwyllgorau i alinio prosesau craffu a sicrwydd â'i amcanion strategol a chynllunio. Mae bwrdd sefydlog a chydlynus wedi cael ei gynnal i raddau helaeth yn ystod y pandemig ac mae aelodau annibynnol newydd wedi cael eu cynorthwyo'n dda i ymgynefino â'u rolau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi addasu ei ddyluniad sefydliadol yn briodol i gynnal y prosesau penderfynu cyflym a'r trefniadau gweithio system gyfan a welwyd yn ystod brigau'r pandemig. Mae trawsnewid a meithrin galluoedd sefydliadol wedi ymwreiddio o fewn y strwythur ac mae penodi'r Cyfarwyddwr newydd ar gyfer Datblygu Strategol a Chynllunio Gweithredol, ac alinio'r amcanion cynllunio newydd ar draws y portffolio cyfarwyddwyr gweithredol, ill dau wedi gwella tîm gweithredol a oedd eisoes yn gydlynus.

7 Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau sydd wedi datblygu'n dda ar gyfer parhau â'i ymateb i COVID-19 ac ailosod ac adfer gwasanaethau, gan amcanu at gyflawni ei fwriad strategol tymor hwy. Ymddengys fod partneriaethau'n gweithio'n dda a bu ymgysylltu da â'r cyhoedd. Mae argaeledd capasiti ychwanegol yn creu risgiau i'r Bwrdd Iechyd, ond mae mecanweithiau da yn eu lle bellach i fonitro a chraffu ar y modd y cyflawnir ei gynllun. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ailfywiogi Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yr ydym ni wedi'i adnabod fel arfer da. Mae trefniadau rheoli risgiau corfforaethol yn gweithio'n dda er bod materion gyda rheoli risgiau gweithredol wedi achosi risg i lefelau sicrwydd. Mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wneud ymrwymiad cryf i les staff ac mae'n arwain y ffordd gyda'i waith darganfod i ddeall a dysgu o brofiadau staff yn ystod y pandemig. Mae ansawdd a diogelwch gwasanaethau'n flaenoriaeth ac mae gwaith Gwella gyda'n Gilydd y Bwrdd Iechyd yn hybu dull colegaidd o wella a hynny'n cael ei ategu gan ddangosfwrdd perfformiad rhyngweithiol. Mae trefniadau llywodraethu ansawdd gweithredol wedi achosi risg hefyd, ond mae camau'n cael eu cymryd i gryfhau'r rhain. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod â threfniadau cadarn i dracio argymhellion archwilio ac adolygu.

8 Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2020-21, gan orffen y flwyddyn â diffyg o £24.9 miliwn. Mae'r Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn i gyflawni ei gynllun ariannol ar gyfer 2021-22 ond mae'n rheoli nifer o risgiau a allai ddwyn canlyniadau ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol, a bydd yn parhau i fethu â chyflawni ei ddyletswyddau ariannol oherwydd diffyg wedi'i gynllunio ar ddiwedd y flwyddyn o £25 miliwn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i

gynnal rheolaethau ariannol priodol ac mae'n gweithio'n galed i gryfhau rheolaeth ariannol i gefnogi cynaliadwyedd tymor hwy ond mae capasiti o fewn timau gweithredol yn rhwystro'i allu i gyflawni adferiad ariannol. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn i fonitro a chraffu ar ei sefyllfa ariannol, a'r rheiny'n cael eu hategu gan adroddiadau cynhwysfawr a thryloyw.

# Argymhellion

9 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd yn seiliedig ar ein gwaith cam dau yn 2021 ond rydym wedi nodi nifer o gyfleoedd ar gyfer mân welliannau drwy'r adroddiad hwn. Byddwn yn adolygu'r cynnydd yn erbyn y rhain fel rhan o'n gwaith yn 2022.

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

10 Fe wnaeth ein gwaith asesu strwythuredig ystyried trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd wrth iddo barhau i ymateb i'r heriau a gyflwynir gan y pandemig.

11 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau, ei fod yn ymrwymedig i wasanaethau o ansawdd da a lles staff, a bod ganddo gynlluniau sydd wedi datblygu'n dda ac sydd bellach yn cael eu monitro'n rheolaidd. Mae nifer o ddulliau arloesol wedi cael eu mabwysiadu i roi cymorth gyda chraffu a sicrwydd, ac er bod trefniadau gweithredol ar gyfer llywodraethu risg ac ansawdd wedi achosi rhai risgiau, mae camau i'w gwella bellach ar waith.**

## Cynnal busnes yn effeithiol

12 Canfuom fod **y Bwrdd yn parhau i gynnal busnes mewn ffordd agored a thryloyw a'i fod wedi cynnal trefniadau llywodraethu da, sydd wedi cael eu haddasu'n briodol pan oedd angen. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i adolygu effeithiolrwydd ei Fwrdd ac mae wedi gwneud nifer o newidiadau cadarnhaol i strwythurau ei bwyllgorau. Mae Bwrdd a thîm gweithredol gweddol sefydlog wedi cael eu cynnal ac mae'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig wedi cael eu hymgorffori yn y dyluniad sefydliadol.**

### Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd

13 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gynnal cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n rhithwir. Mae lefelau presenoldeb wedi bod yn dda. Mae moesau cyfarfodydd rhithwir bellach wedi hen ymsefydlu, gyda chyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n gwneud defnydd da o'r dechnoleg sydd ar gael. Ni fu unrhyw faterion mawr o ran cysylltedd TG ac eithrio problem cysylltu a ddigwyddodd yn ystod cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021; fodd bynnag, fe ymdriniwyd yn effeithiol ac yn gyflym â hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu parhau â'r trefniadau rhithwir ond mae â'i fryd ar ailgydio mewn cyfarfodydd Bwrdd wyneb yn wyneb cyn gynted ag y bydd yn ddiogel iddo wneud hynny.

14 Mae papurau'r Bwrdd a phwyllgorau ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd cyn cyfarfodydd. Gwahoddir aelodau'r cyhoedd i arsylwi, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud defnydd da o'i sianelau ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo cyfarfodydd y Bwrdd sydd ar ddod. Mae cyfarfodydd Bwrdd ychwanegol wedi cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn i alluogi penderfyniadau i gael eu gwneud cyn terfynau amser Llywodraeth Cymru. Mae holl gyfarfodydd y Bwrdd wedi parhau i gael eu ffrydio'n fyw, gan adlewyrchu ymrwymiad parhaus y Bwrdd i dryloywder cyhoeddus. Mae recordiadau ar gael i'w gwylio ar wefan y Bwrdd Iechyd yn syth ar ôl cyfarfodydd. Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned yn dal i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd.

15 Mae cyn lleied â phosibl o fusnes y Bwrdd a phwyllgorau'n cael ei drafod yn breifat. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys crynodeb o'r penderfyniadau yn ei adroddiad diweddaru ar bwyllgorau i gyfarfod cyhoeddus y Bwrdd. Mae nifer o gyrff eraill y GIG yng Nghymru'n cynnwys cofnodion wedi'u golygu o gyfarfodydd preifat ym mhapurau cyhoeddus y Bwrdd. Efallai yr hoffai'r Bwrdd Iechyd ystyried adolygu dulliau cyrff eraill y GIG i weld a oes ffyrdd eraill o gynyddu ei dryloywder cyhoeddus ymhellach.

## Trefniadau'r Bwrdd a phwyllgorau

16 I ymateb i heriau uniongyrchol pandemig COVID-19, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd newidiadau dros dro i fynychder cyfarfodydd, fe symleiddiwyd agendâu ac fe gafodd rhai pwyllgorau eu hatal am y tro. Hwyluswyd y newidiadau hyn gan amrywiad dros dro i rannau o reolau sefydlog y Bwrdd Iechyd y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2020. Fe weithiodd y trefniadau hyn yn dda a buont yn cael eu hadolygu'n gyson gan y Bwrdd.

17 Ym mis Gorffennaf 2020, fe newidiodd y Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn ôl i gyfarfodydd deufisol, gyda mynychder pwyllgorau eraill yn rhedeg yn ôl yr arfer. Llwyddwyd i gynnal y Bwrdd a phwyllgorau yn ystod ail frig COVID-19, a phan oedd angen fe gynyddodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad fynychder ei gyfarfodydd i oruchwylio effaith y pandemig ar ofal cleifion. Fe barhaodd y Pwyllgor Cyllid i gwrdd yn fisol, fel yr oedd yn ei wneud cyn y pandemig. Daethpwyd â'r amrywiadau dros dro i'r rheolau sefydlog i ben yn ffurfiol ym mis Mai 2021.

18 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cadw ei ffocws ar leihau'r baich ar amser cyfarwyddwyr gweithredol, gyda phresenoldeb dim ond pan fo angen mewn pwyllgorau, ac agendâu symlach yn cael eu hategu gan ddull a oedd yn golygu nad oedd gormod o bapurau. Mae ffocws tynn ar hyd cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau wedi cael ei gynnal hefyd. Cyfyngwyd i'r eithaf ar eitemau agenda a ohiriwyd yn ystod 2020, ac mae'r rhain i gyd wedi cael eu hailgyflwyno erbyn hyn.

19 Trefnir bod papurau'r Bwrdd a phwyllgorau ar gael i aelodau annibynnol yn unol â therfynau amser a nodir yn y rheolau sefydlog. Mae agendâu'r Bwrdd yn gynhwysfawr, ac mae'r papurau ar y cyfan yn cynnwys tua 400 o bapurau ar gyfer pob cyfarfod. Mae papurau pwyllgorau'n gynhwysfawr hefyd ac yn cynnwys rhwng 250 a 350 o dudalennau ar gyfer pob cyfarfod. Mae defnyddio cyflwyniadau, diweddariadau ar lafar ac offer data rhyngweithiol wedi galluogi'r dull heb ormodedd o bapur a grybwyllwyd ym **mharagraff 18**.

20 Mae defnydd o adroddiad SBAR y Bwrdd Iechyd[1] wedi'i sefydlu'n dda yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau i gefnogi dealltwriaeth aelodau annibynnol am y materion allweddol ym mhob eitem ar yr agenda a'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Defnyddir yr adroddiad ar gyfer pob papur mewnol ac mae hefyd yn

[1] Sefyllfa, cefndir, asesiad, ac argymhelliad.

sicrhau bod eitemau ar agendâu'r Bwrdd a phwyllgorau'n gysylltiedig ag amcanion strategol y Bwrdd Iechyd, a bod unrhyw effaith a fyddai'n deillio o benderfyniadau'n cael ei deall yn glir.

21 Mae ein harsylwadau ar gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau wedi cael eu bod yn cael eu cadeirio'n dda, gyda thrafodaethau â ffocws pendant ar eitemau allweddol, a chyfraniadau gan bawb sy'n bresennol. Ceir croesgyfeirio da rhwng pwyllgorau, gyda hynny'n cael ei ategu gan y cyfarfodydd sydd newydd gael eu sefydlu rhwng cadeiryddion pwyllgorau. Mae cadeiryddion pwyllgorau'n cael eu cynnwys yn y broses o bennu'r agenda ar gyfer pob cyfarfod pwyllgor, ac mae adroddiadau ar bob cyfarfod pwyllgor yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd. Mae cadeiryddion pwyllgorau hefyd wedi cadw cyfarfod cyswllt gyda'r swyddog gweithredol arweiniol perthnasol rhwng cyfarfodydd pwyllgorau.

22 Mae'r gofrestr buddiannau ar gyfer holl aelodau'r Bwrdd yn cael ei ddiweddaru'n gyson ac yn cael ei gyflwyno yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn flynyddol. Mae pob cyfarfod Bwrdd a phwyllgor yn cynnwys eitem sefydlog ar yr agenda i ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas ag unrhyw eitemau ar yr agenda.

23 Mae rhaglen reolaidd o seminarau a sesiynau datblygu ar gyfer y Bwrdd wedi cael eu cynnal yn ystod 2021. Mae'r rhain wedi galluogi aelodau annibynnol gael eu cynnwys yn fwy anffurfiol mewn trafodaethau strategol a gweithgareddau datblygu ehangach. Mae'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr hefyd wedi cadw sesiynau briffio gydag aelodau annibynnol i sicrhau eu bod yn aros gyfuwch â materion brys. Mae Canolfan Adnoddau electronig hefyd yn galluogi aelodau annibynnol i gael mynediad uniongyrchol parhaus at wybodaeth sy'n ymwneud â'r pandemig. Fel a ddigwyddodd yn 2020, cyfyngedig fu'r angen i ddefnyddio Camau Gweithredu gan y Cadeirydd, ond pan fu'n ofynnol, mae'r rhain yn mynd trwy brosesu craffu a herio priodol, ac yn cael eu cadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

## Ymrwymiad y Bwrdd i wella'n barhaus

24 Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweithiol o ran adolygu effeithiolrwydd ei Fwrdd a'i bwyllgorau. Cynhaliodd y Bwrdd adolygiad manwl o'i drefniadau ym mis Mai 2021 i gefnogi ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol. Tynnodd yr adolygiad ar ystod eang o asesiadau mewnol ac allanol a gynhelir trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys hunanasesiadau ac adroddiadau blynyddol pob pwyllgor. Gan ddefnyddio asesiad matrics, fe gytunodd y Bwrdd ar lefel aeddfedrwydd pedwar a ddiffinnir fel 'mae gennym gynlluniau a phrosesau sydd wedi datblygu'n dda a gallwn ddangos gwelliant cynaliadwy drwy'r gwasanaeth i gyd'. Mae hyn yn welliant ar y flwyddyn ariannol flaenorol, o lefel tri. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo'n flaenorol i fod yn un o ddau o gyrff y GIG yng Nghymru sy'n treialu dull asesu blynyddol newydd a ddatblygwyd trwy Rwydwaith Ysgrifenyddion Byrddau GIG Cymru. Fodd bynnag, mae'r angen i gynnal dull ystwyth mewn ymateb i'r pandemig wedi golygu bod y dull hwn wedi cael ei ohirio am y tro.

25 Un o’r prif feysydd a adnabuwyd yn adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd oedd yr angen i ailddylunio datblygiad aelodau annibynnol a theilwra rhaglenni sefydlu lleol. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi datblygu pecyn sefydlu cynhwysfawr ar gyfer aelodau annibynnol newydd. Yn ystod 2021, bu tri aelod annibynnol newydd. Yn flaenorol rydym wedi canmol y Bwrdd Iechyd am ei allu i ddarparu cyfnod pontio rhwng aelodau annibynnol sy’n gadael ac yn ymuno. Fodd bynnag, mae oedi gyda’r broses recriwtio genedlaethol wedi golygu nad oedd modd hwyluso cyfnod pontio ar gyfer y penodiadau diweddar. Serch hynny, mae’r Bwrdd Iechyd wedi gweithio’n galed i sicrhau bod aelodau annibynnol newydd wedi cael cyfleoedd i gael eu cefnogi gan aelodau annibynnol mwy profiadol a bod ganddynt fynediad at gyfarwyddwyr gweithredol lle y bo’n berthnasol. Mae’r bylchau rhwng aelodau annibynnol sy’n gadael a’r rhai sy’n ymuno wedi bod yn fach iawn, heb unrhyw oblygiadau ar gyfer presenoldeb na pharhad yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau.

26 Tuag at ddiwedd 2020, fe wnaeth y Bwrdd ailystyried ei weledigaeth strategol a chynnal adolygiad cynhwysfawr o’i ymrwymiadau blaenorol. Fe arweiniodd y gwaith yma at set wedi’i diweddaru o amcanion strategol ac amcanion cynllunio ategol a ddefnyddiwyd i lunio Cynllun Adfer Blynyddol 2021-22. I sicrhau goruchwyliaeth briodol, cafodd pob amcan ei fapio i’r Bwrdd neu bwyllgor presennol ar y pryd. Fe arweiniodd hyn at gynnig nifer o newidiadau i'r strwythur pwyllgorau i alinio prosesau craffu a sicrwydd yn well â’r amcanion. Cafodd canlyniad yr ymarfer mapio’i rannu yn un o seminarau’r Bwrdd ym mis Ebrill 2021. Cafodd papur ffurfiol ei gyflwyno a’i gymeradwyo wedyn gan y Bwrdd ym mis Mai 2021 yn nodi newidiadau arfaethedig i bwyllgorau. Cafodd diwygiadau ffurfiol i drefniadau llywodraethu eu cymeradwyo ym mis Gorffennaf 2021 a daeth y pwyllgorau newydd i rym ym mis Awst 2021. Roedd y newidiadau’n cynnwys:

- Sefydlu’r Pwyllgor Datblygu Strategol a Chyflawni Gweithredol, i ddisodli’r elfennau ‘cynllunio’ a ‘pherfformiad’ o’r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Sicrwydd Perfformiad gynt.
- Sefydlu’r Pwyllgor Pobl, Datblygu Sefydliadol a Diwylliant, i ddisodli’r elfen ‘pobl’ o'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Sicrwydd Perfformiad gynt.
- Sefydlu’r Pwyllgor Adnoddau Cynaliadwy, i ddisodli’r Pwyllgor Cyllid blaenorol, a darparu ffocws ehangach na chyllid, gan hefyd leihau mynychder cyfarfodydd i amserlen ddeufisol.
- Ailenwi’r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad blaenorol yn Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.

27 Er eu bod yn dal yn newydd iawn, mae’r pwyllgorau newydd wedi ymwreiddio’n dda, ac fel a grybwyllwyd ym **mharagraff 21**, canfuom fod pob pwyllgor yn cael ei gadeirio’n dda. Mae’r Bwrdd wedi ymrwymo i adolygu’r pwyllgorau hyn yn gyson a’u diwygio fel y bo angen.

28 Trwy gydol y pandemig, mae’r Bwrdd Iechyd wedi cynnal ei Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a Fforwm Proffesiynolion Gofal Iechyd. Mae hefyd wedi cynnal ei Fforwm Partneriaeth Staff a’i Banel Moeseg a sefydlwyd i gefnogi’r broses o wneud

penderfyniadau moesegol mewn ymateb i’r pandemig. Mae’r Bwrdd Iechyd hefyd wedi mynd ati ymhellach i ddatblygu ei fecanwaith ar gyfer sicrhau ei fod yn clywed ac yn cynnwys barn grwpiau amrywiol a lleiafrifol. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi ystyried sefydlu Grŵp Ymgynghorol Amrywiaeth a Chynhwysiant i gynghori’r Bwrdd, sy’n ymgorffori ei Grŵp Ymgynghorol Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a sefydlwyd yn 2020, a’i Rwydwaith LGBTQ+ Enfys. Mae trafodaeth bellach ynghylch sut y byddir yn bwrw ymlaen â’r agenda hon yn cael ei chynnal trwy’r Pwyllgor Pobl, Datblygu Sefydliadol a Diwylliant ar hyn o bryd.

## Sicrhau bod dyluniad sefydliadol yn cefnogi llywodraethu effeithiol

29 Daeth y Bwrdd Iechyd â’i strwythur rheoli i ben yn ffurfiol ym mis Mawrth 2021, gan gadw hyblygrwydd i ailgychwyn elfennau ohono pe bai achosion COVID-19 yn cynyddu drachefn. Cafodd cyfarfodydd Tîm Gweithredol wythnosol eu hadfer gyda ffocws ar adolygu cynnydd a chydlynu a diweddaru’r ymateb parhaus i’r pandemig, yn ogystal â’r busnes rheolaidd ehangach. Fe wnaed darpariaeth ar gyfer cyfarfodydd Rheoli Aur ar gais ac mae nifer o’r rhain wedi cael eu cynnal ers mis Mawrth 2021 ar faterion penodol. Mae nifer o gelloedd sy’n gysylltiedig â COVID-19 yn dal i fodoli, megis cell iechyd y cyhoedd. Mae pob cell yn adrodd yn uniongyrchol wrth y Tîm Gweithredol.

30 Mae Trefn Reoli Arian (tactegol) y Bwrdd Iechyd yn dal i gwrdd ond mae’r gwersi a ddysgwyd o’r Drefn Reoli Arian wedi cael eu hymgorffori hefyd wrth sefydlu Grŵp Rhaglen Cynllunio a Chyflawni Gweithredol sy’n cwrdd yn wythnosol. Mae’r grŵp yn dwyn ynghyd arweinwyr allweddol o bob rhan o’r sefydliad ac yn cynorthwyo gyda thrafodaethau system gyfan a gweithio ystwyth a welwyd yn ystod yr ymateb i'r pandemig. Mae’r gwersi a ddysgwyd o’r Drefn Reoli Efydd wedi arwain at sefydlu Grwpiau Cyflawni Amcanion Cynllunio sydd wedi’u halinio ag amcanion cynllunio. Mae hyn yn cynnwys grwpiau cyflawni ar gyfer Gofal Brys ac mewn Argyfwng, a Gofal wedi’i Gynllunio. Mae cyflawni gweithredol hefyd yn cael ei gefnogi gan gyfarfodydd busnes gweithredol misol a sefydlwyd gyda’r Cyfarwyddwr Gweithrediadau a’r cyfarwyddiaethau clinigol.

31 Mae’r Grŵp Galluogi Strategol, a sefydlwyd gyntaf i gefnogi agenda drawsnewid y Bwrdd Iechyd, wedi cael ei ddiweddaru i ganolbwyntio ar feithrin galluoedd sefydliadol i gynorthwyo a chyflymu’r broses o gyflawni’r amcanion cynllunio. Mae hyn yn cynnwys agweddau fel gofal iechyd seiliedig ar werthoedd, defnyddio technoleg ddigidol a chudd-wybodaeth, a dulliau arloesol sy’n gysylltiedig â gwerth cymdeithasol nas gwelir o anghenraid yng nghyrff eraill y GIG. Caiff y grŵp ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyllid.

32 Mae Grŵp Llywio Trawsnewid y Bwrdd Iechyd, a sefydlwyd gyntaf ym mis Mehefin 2020, wedi cael ei ddiweddaru hefyd fel grŵp ymgynghorol sy’n cynghori’r Bwrdd. Mae’r Grŵp Llywio Trawsnewid yn darparu fforwm i geisio ffyrdd newydd i wireddu gweledigaeth tymor hwy’r Bwrdd Iechyd a chasglu syniadau newydd ac arloesol o bob rhan o’r sefydliad. Mae allbynnau o’r grŵp yn trosi’n amcanion cynllunio posibl ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cadw ei Aelod Cyswllt

blaenorol ar gyfer Cyllid trwy ei benodi'n ymgynghorydd strategol i ddarparu her annibynnol i'r Bwrdd. Mae tri ymgynghorydd strategol arall wedi cael eu penodi hefyd, un â ffocws ar ofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd, un â ffocws ar drawsnewid a gwerth cymdeithasol, ac un â ffocws ar ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r Ymgynghorydd Strategol ar gyfer Trawsnewid yn aelod o'r Grŵp Llywio Trawsnewid.

33 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal parhad o fewn ei garfan o gyfarwyddwyr gweithredol gan mwyaf yn ystod y pandemig. Dechreuodd y Cyfarwyddwr Datblygu Strategol a Chynllunio Gweithredol newydd ym mis Ebrill 2021 ac mae wedi ychwanegu safbwynt newydd ac sydd i'w groesawu at y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio'i wasanaethau. Mae amcanion cynllunio wedi cael eu haseinio i bob cyfarwyddwr gweithredol a lle mae cyfyngiadau COVID-19 wedi caniatáu, mae'r Tîm Gweithredol wedi cynnal nifer o sesiynau datblygu tîm i barhau i adeiladu ar ei waith tîm a oedd eisoes yn gryf a chydlynus.

## Cynllunio ar gyfer adferiad[2]

34 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau sydd wedi datblygu'n dda ar gyfer parhau â'i ymateb i COVID-19 ac i ailosod ac adfer gwasanaethau, gan hefyd osod y sylfeini i gyflawni ei fwriad strategol tymor hwy. Mae partneriaethau'n gweithio'n dda a bu ymgysylltu da â'r cyhoedd. Mae argaeledd capasiti ychwanegol yn achosi risgiau i'r Bwrdd Iechyd, ond mae mecanweithiau da ar waith bellach i fonitro a chraffu ar y modd y cyflawnir ei gynlluniau.**

35 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail, ac mae'r angen i'r Bwrdd Iechyd ymateb wedi dwyn cost uchel o ran ei allu i ddarparu gwasanaethau rheolaidd. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, datblygodd y Bwrdd Iechyd ei Gynllun Adfer Blynyddol 2021-22, sy'n nodi sut y mae'n bwriadu rheoli'r ymateb parhaus i'r pandemig ac ailosod ac adfer gwasanaethau.

36 Cafodd aelodau annibynnol olwg gynnar ar y cynllun a oedd yn datblygu yn ystod seminarau'r Bwrdd o fis Rhagfyr 2020 ymlaen. Bu'r Bwrdd yn trafod y cynllun drafft yn fanwl yn ei gyfarfod preifat ym mis Mawrth 2021 ac fe'i cymeradwyodd yn amodol ar nifer o newidiadau cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

37 Roedd adborth gan Lywodraeth Cymru'n gadarnhaol at ei gilydd ond roedd yn nodi bod y cynllun yn rhy hir. Roedd yr adborth yn cydnabod bwriad strategol cryf y Bwrdd Iechyd, gyda ffocws cadarnhaol ar ofal sylfaenol a chymunedol, iechyd

[2] Mae'n ofynnol i gyrff y GIG gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) tair blynedd i Lywodraeth Cymru a hynny'n flynyddol. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru atal y broses CTCI ar gyfer 2020-23 ym mis Mawrth 2020, i ganiatáu i gyrff y GIG ganolbwyntio ar ymateb i bandemig COVID-19. Yn lle hynny, roedd hi'n ofynnol i gyrff iechyd gyflwyno cynlluniau chwarterol yn ystod 2020-21 yn ogystal â pharatoi cynllun blynyddol ar gyfer 2021-22 erbyn 31 Mawrth 2021. Fe wnaeth ein hadroddiad asesu strwythuredig 2021 (cam un) ystyried trefniadau cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd.

meddwl ac anableddau dysgu, a datrysiadau rhanbarthol. Fe ymdriniwyd â nifer o welliannau yn y cynllun terfynol, a'r rheiny'n cynnwys:

- triongli gwell rhwng gweithgarwch, y gweithlu, a gofynion ariannol.
- aliniad mwy eglur â blaenoriaethau cynllunio'r GIG.
- mwy o eglurder o ran y cynlluniau ar gyfer adfer gofal wedi'i gynllunio, y cymorth ar gyfer gwasanaethau brys ac mewn argyfwng, a'r ymateb parhaus i COVID-19.
- mwy o eglurder o ran canlyniadau a'r graddfeydd amser ar gyfer cyflawni.

38 Cafodd y cynllun terfynol ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2021 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol â'r graddfeydd amser gofynnol.

39 Yn 2018, fe lansiodd y Bwrdd Iechyd ei strategaeth 20 mlynedd 'Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach – Cenedlaethau'r Dyfodol yn Byw'n Dda'. Yng ngoleuni'r pandemig, mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu ei strategaeth ac wedi cadarnhau ei bod yn dal i fod yn addas ar gyfer y diben. Mae'r Cynllun Adfer Blynyddol wedi cael ei lunio yng nghyd-destun y strategaeth ond mae hefyd yn adeiladu ar ei waith darganfod a wnaed yn 2020. Roedd y gwaith darganfod yn ceisio dysgu o'r ymateb i'r pandemig a sut y gellir rhoi'r gwersi hynny ar waith i gyflymu'r broses o gyflawni'r strategaeth. Mae'r Cynllun Adfer Blynyddol hefyd wedi ystyried amcanion llesiant diwygiedig y cytunwyd arnynt yn 2020.

40 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweld twf sylweddol yn nifer y cleifion sy'n aros am ofal wedi'i gynllunio, gan barhau i ymateb i anghenion cleifion â COVID-19. Mae'r Cynllun Adfer Blynyddol yn nodi sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynyddu gweithgarwch, lleihau amseroedd aros, a gwella mynediad at wasanaethau, gan ddefnyddio datrysiadau rhanbarthol lle y bo'n ymarferol. Ym mis Mehefin 2021, cafodd y Bwrdd Iechyd gyllid ychwanegol o £11.3 miliwn i roi cymorth i adfer gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio. Cafwyd £9.5 miliwn arall ym mis Hydref 2021. Mae'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i ddarparu capasiti mewnol ac allanol ychwanegol i ymateb i'r ôl-groniad cynyddol o weithgarwch. Fodd bynnag, mae'r heriau sy'n gysylltiedig â'r capasiti sydd ar gael, yn enwedig yn y sector annibynnol, yn creu risgiau i allu'r Bwrdd Iechyd i wario'r arian. Yn ei gyfarfod mewn pwyllgor ym mis Tachwedd, cytunodd y Bwrdd yn ffurfiol i roi £10.1 miliwn yn ôl i Lywodraeth Cymru.

41 Mae'r Cynllun Adfer Blynyddol yn cydnabod y cerrig milltir allweddol y mae eu hangen yn ystod y flwyddyn i roi cymorth i gyflawni'r strategaeth tymor hwy, yn enwedig mewn perthynas ag achosion busnes ar gyfer adeiladu'r ysbyty newydd. Er gwaethaf y pandemig, mae gwaith helaeth yn mynd rhagddo i ddatblygu achos busnes rhaglen yr ysbyty newydd cyn y terfyn amser ym mis Mawrth 24. Yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2021, fe gynhaliodd y Bwrdd Iechyd ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd i ddeall sut yr oedd y pandemig wedi effeithio ar ei boblogaeth leol a'r goblygiadau ar gyfer ei strategaeth. Roedd yr ymarfer hefyd yn ceisio barn pobl ynglŷn â lleoliadau posibl ar gyfer yr ysbyty newydd a'r ffactorau y mae angen i'r Bwrdd Iechyd eu hystyried mewn perthynas â'r lleoliad. Denodd yr ymarfer lefelau da o ymgysylltiad.

42 Fel a grybwyllwyd ym **mharagraff 6**, mae Cynllun Adfer Blynyddol 2021-22 yn cynnwys nifer o amcanion strategol a chynllunio. Roedd ein hadroddiad asesu strwythuredig 2021 (cam un) yn nodi'r angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu ei brosesau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir ei gynlluniau. Aseiniwyd cyfarwyddwr gweithredol arweiniol, a phwyllgor ar gyfer craffu a sicrwydd, ar gyfer yr holl flaenoriaethau cynllunio yng Nghynllun Adfer Blynyddol 2021-22. Caiff y modd y cyflawnir yr amcanion cynllunio ei oruchwylio gan y Tîm Gweithredol ac adroddir ar hynny wrth y Bwrdd yn chwarterol. Mae adroddiad monitro newydd, sy'n defnyddio sgoriau CAG[3], wedi cael ei ddatblygu. Mae'r adroddiad yn nodi cynnydd yn erbyn pob amcan cynllunio, a chamau lliniarol lle mae'r cynnydd o ran cyflawni ar ei hôl hi o'i gymharu â'r proffil. Caiff y cynnydd o ran cyflawni amcanion cynllunio'r Bwrdd Iechyd ei adlewyrchu yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd hefyd (**paragraff 45)**.

43 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio'n agos gyda'i bartneriaid i gyflawni ei Gynllun Adfer Blynyddol. Mae datrysiadau rhanbarthol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe'n helpu i ymateb i'r galw sydd wedi pentyrru ym mae offthalmoleg yn ogystal â nifer o feysydd blaenoriaeth eraill. Mae gwaith gyda Chydweithrediaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru hefyd wedi canolbwyntio'r sylw ar wella llwybrau clinigol ar gyfer Ysbyty Cyffredinol Dosbarth Bronglais. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gydweithio'n agos iawn gyda'r tri awdurdod lleol, gyda'r Is-Gadeirydd bellach yn cadeirio'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac mae'r Tîm Gweithredol Integredig ar y Cyd yn dal i gwrdd yn rheolaidd. Datblygwyd datrysiadau ar y cyd i ymateb i'r prinder o ran darpariaeth gofal cartref, gan gynnwys datblygu gwasanaeth pontio ar gyfer gofal cartref.

## Systemau sicrwydd

44 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da a chefnogi lles staff. Mae dull arloesol i'w gwneud yn bosibl craffu'n effeithiol ar risgiau a chanlyniadau strategol yn ei le drwy Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a dangosfwrdd perfformiad sy'n rhyngweithiol. Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull o fonitro'r modd y rhoddir argymhellion archwilio ac adolygu ar waith sy'n cael ei reoli'n dda. Mae trefniadau rheoli risgiau gweithredol a llywodraethu ansawdd wedi achosi risg i gael y lefelau gofynnol o sicrwydd, ond mae gwaith ar y gweill bellach i fynd i'r afael â'r rhain.**

### Rheoli risg

45 Yn ein hasesiad strwythuredig blaenorol, fe gyfeiriom ni at y ffaith bod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu diweddaru Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn 2020 i adlewyrchu ei weledigaeth strategol. Oherwydd effaith y pandemig, bu oedi dros dro gyda'r gwaith hwn. Ers hynny mae'r Bwrdd Iechyd wedi ailedrych ar Fframwaith Sicrwydd

[3] Coch, Ambr a Gwyrdd.

y Bwrdd i adlewyrchu amcanion strategol a chynllunio diwygiedig (y cyfeirir atynt ym **mharagraff 26**). Cafodd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd rhyngweithiol wedi'i ailfywiogi ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Medi 2021.

46 Dylid canmol y Bwrdd Iechyd ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, ac er ei fod yn dal i esblygu, fe'i hadwaenir fel model o arfer da. Yn ogystal ag adnabod y prif risgiau i gyflawni amcanion y Bwrdd Iechyd, y rheolaethau a sicrwydd, mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd hefyd yn ceisio alinio canlyniadau yn erbyn amcanion strategol, a'r modd y cyflawnir ei amcanion cynllunio. Mae'r offeryn rhyngweithiol wedi'i fwriadu i alluogi aelodau annibynnol i gael cipolwg o feysydd sy'n achosi pryder, y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd, a darperir sicrwydd trwy'r pwyllgorau perthnasol. Ar adeg ysgrifennu, mae meysydd sy'n achosi pryder yn cynnwys cynnydd araf wrth gyflawni amcanion cynllunio, effaith araf neu ddim effaith ar fesurau canlyniadau y cytunwyd arnynt, a risgiau arwyddocaol i gyflawni amcanion strategol, lle nad oes rhyw lawer o hyder yn y sicrwydd a ddarperir. Cyflwynir adroddiad ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod ar hyn o bryd, gyda'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cynnal goruchwyliaeth ar gryfder rheolaethau a sicrwydd. Caiff y prif risgiau yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd eu haseinio i'r pwyllgor mwyaf priodol.

47 Cyflwynir adroddiad ar gofrestr risgiau corfforaethol y Bwrdd Iechyd i bob yn ail gyfarfod gan y Bwrdd hefyd, gyda risgiau'n cael eu haseinio i'r pwyllgor perthnasol ac yn cael eu monitro ganddo. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ailedrych ar ei risgiau corfforaethol trwy drafodaethau gydag aelodau annibynnol ac ystyriaeth i risgiau penodol mewn pwyllgorau. Mae'r prif risgiau hefyd wedi cael eu trafod a'u cytuno trwy weithdai ar gyfer y tîm gweithredol. Yn ystod 2021, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd hefyd ddiweddaru canllawiau ar gyfer y Bwrdd mewn perthynas â'i oddefiant a pharodrwydd i dderbyn risg. Mae adolygiad pellach o barodrwydd y Bwrdd Iechyd i dderbyn risg wedi cael ei ohirio tan 2022-23. Mae'r Tîm Gweithredol yn cynnal goruchwyliaeth reolaidd ar y gofrestr risgiau corfforaethol. Fel a nodwyd yn ein hasesiad strwythuredig 2020, caiff risgiau sy'n ymwneud yn benodol â COVID-19 eu hymgorffori o fewn y gofrestr risgiau corfforaethol.

48 Mae tîm Archwilio Mewnol y Bwrdd Iechyd yn bwriadu adolygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a threfniadau rheoli risg yn gynnar yn 2022. Fe wnaeth nifer o adolygiadau Archwilio Mewnol a gynhaliwyd yn 2021 ganolbwyntio ar drefniadau llywodraethu o fewn cyfarwyddiaethau unigol. Fe wnaeth yr adolygiadau hynny nodi nad oedd risgiau gweithredol yn cael eu diweddaru a bod camau i liniaru risgiau'n hwyr yn cael eu cymryd. Canfu ein hadolygiad llywodraethu ansawdd (y cyfeirir ato'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn) a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar risgiau ansawdd, hefyd anghysonderau o ran rheoli risgiau gweithredol, methiannau i ddiweddaru cofrestrau risgiau a dryswch ynghylch cyfrifoldebau am risg.

49 Fel rhan o'i drefniadau llywodraethu diwygiedig i ymateb i'r pandemig, fe nododd y Bwrdd Iechyd ddull rheoli risg wedi'i symleiddio. Roedd hyn yn cynnwys peidio â monitro a chraffu ar risgiau gweithredol ond gan barhau i'w gwneud yn ofynnol i dimau gweithredol reoli risgiau presennol ac unrhyw risgiau newydd i atal niwed,

lleihau colled i’r eithaf a lleihau difrod. Cyn y pandemig, roedd yn arferol craffu ar risgiau gweithredol trwy adolygiadau perfformiad gweithredol misol gyda chyfarwyddiaethau. Er bod y trefniadau llywodraethu diwygiedig wedi cael eu dirwyn i ben ers hynny, mae’r Bwrdd Iechyd wedi rhoi’r gorau i’w drefniadau perfformiad a oedd yn bodoli cyn y pandemig. Disodlwyd y trefniadau presennol gan y dull Gwella Gyda’n Gilydd, sy’n mabwysiadu dull llawer mwy colegaidd o fynd ar drywydd gwelliant. Mae’r dull hwn yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd (trafodir hynny ymhellach ym **mharagraff 57**). Yn y cyfamser, mae gwaith wedi cael ei wneud i gryfhau trefniadau risgiau gweithredol mewn ymateb i’n gwaith llywodraethu ansawdd. Mae hyn wedi cynnwys adolygiad dan arweiniad y tîm gweithredol o gofrestrau risg pob cyfarwyddiaeth ac roedd yn cynnwys y Pennaeth Sicrwydd a Risg. Mae’r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynnwys yr adolygiadau hyn fel rhan o raglen barhaus.

## Sicrwydd ansawdd a diogelwch[4]

### Trefniadau lles staff

50 Mae lles staff yn flaenoriaeth arwyddocaol i’r Bwrdd Iechyd. Yn 2019, datblygodd y Bwrdd Iechyd ei Strategaeth ddeng mlynedd ar gyfer y Gweithlu, Datblygu Sefydliadol ac Addysg sy’n rhychwantu’r cyfnod 2020-2030. Mae lles staff yn amlwg o fewn y strategaeth. Fe arweiniodd effaith y pandemig at yr angen i gyflymu rhai o’r agweddau allweddol ar y strategaeth. Gyda chymorth Grŵp Efydd y Gweithlu, fe gymerodd y Bwrdd Iechyd nifer o gamau gweithredu i sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu’r Grŵp Cyfeirio Gorffwys, Adferiad ac Adsefydlu pan oedd y pandemig ar ei anterth, a’r Grŵp Ymgynghorol BAME gyda llinell atebolrwydd uniongyrchol i’r Bwrdd. Roedd hyn hefyd yn cynnwys cyflwyno’r offeryn asesu risg i adnabod staff a oedd yn wyneb risg o ganlyniad i’r feirws COVID-19, buddsoddiad ychwanegol yn Gwasanaeth Lles Seicolegol Staff, a chreu adnoddau lleol fel ‘mannau gwrando’ trwy ddefnyddio arian elusennol.

51 Mae gorffwys, adferiad ac adsefydlu ar gyfer staff yn tanategu tri o amcanion strategol y Bwrdd Iechyd[5] yn ei Gynllun Adfer Blynyddol 2021-22. Ategir y rhain gan nifer o amcanion cynllunio sy’n cynnwys cynnal ail adolygiad darganfod i ddeall profiadau staff yn ystod y pandemig a’r hyn y mae ei angen i’w helpu i gael

[4] Rydym wedi cyfyngu ar y gwaith yr ydym wedi’i wneud ar drefniadau llywodraethu ansawdd fel rhan o’n hasesiad strwythuredig 2021 gan ein bod wedi cynnal adolygiad ar wahân o drefniadau llywodraethu ansawdd yn y Bwrdd Iechyd. Mae’r adolygiad wedi ystyried a yw trefniadau llywodraethu ansawdd y sefydliad o gymorth i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd da. Cyhoeddwyd adroddiad ar ein canfyddiadau ym mis Hydref 2021.

[5] Y tri amcan strategol yw ‘gwneud pobl yn ganolog i bopeth a wnawn, cydweithio i fod y gorau y gallwn fod, ac ymegnïo i ddarparu a datblygu gwasanaethau rhagorol’.

adferiad. Cyflwynwyd canfyddiadau'r adolygiad darganfod[6] i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021 a hwn yw'r adolygiad cyntaf o'i fath i gael ei gynnal ledled Cymru. Gan weithio gyda Hyb Ymchwil, Arloesi a Gwella Gorllewin Cymru, fe geisiodd yr adolygiad cynhwysfawr farn gan ystod eang o staff.

52 Bydd canfyddiadau'r adolygiad darganfod yn cael eu defnyddio i helpu i lunio'r dulliau o ran gorffwys, adferiad ac adsefydlu dros y ddwy flynedd nesaf gan gynnwys 'diolch-offrwm' i staff. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion sy'n cynnwys dilysu amser i oedi a myfyrio o fewn y diwrnod gwaith. Mae camau gweithredu wedi cael eu datblygu ar y cyd â staff, gyda'r Pwyllgor Pobl, Datblygu Sefydliadol a Diwylliant yn goruchwylio'r cynllun gweithredu, ynghyd â'r modd y cyflawnir amcanion cynllunio eraill sy'n gysylltiedig â'r gweithlu a strategaeth y gweithlu.

53 Mae'r Pwyllgor Pobl, Datblygu Sefydliadol a Diwylliant yn cael sicrwydd ynghylch ystod eang o agweddau eraill ar y gweithlu hefyd gan gynnwys diweddariad rheolaidd ar ddangosfwrdd y gweithlu sy'n cynnwys agweddau megis absenoldeb oherwydd salwch, cydymffurfio ag adolygiadau o berfformiad a datblygiad a'r defnydd o wyliau blynyddol.

54 Trwy gydol y pandemig, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal ei raglen o werthfawrogiad a chydnabyddiaeth i staff i gefnogi lles staff. Ym mis Ebrill 2021, fe gyflwynodd y Bwrdd Iechyd hefyd gynllun mentora o chwith ar gyfer aelodau'r Bwrdd i ddysgu gan ddetholiad o staff ar draws y sefydliad sut beth yw bod yn gyflogai. Cynhaliwyd sesiwn ganol tymor i rannu'r gwersi ym mis Hydref 2021, gyda sesiwn derfynol yn yr arfaeth ar gyfer mis Mawrth 2022.

## Ansawdd a diogelwch gwasanaethau

55 Mae ansawdd a diogelwch gwasanaethau'n rhan annatod o weledigaeth strategol y Bwrdd Iechyd a'i Gynllun Adfer Blynyddol 2021-22. Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o flaenoriaethau gwella ansawdd a chyda chymorth ei Fframwaith Strategol Gwella Ansawdd 2018-2021, mae'n gweithio i ddatblygu ei System Rheoli Ansawdd er y bu oedi o ran gwneud cynnydd gyda hyn oherwydd y pandemig.

56 Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd yw'r prif gyfrwng i ddarparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau ynghylch sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio yn erbyn mesurau perfformiad ac ansawdd cenedlaethol a lleol. Mae'r adroddiad yn darparu diweddariad eglur ar fesurau sy'n dirywio a'r rhai y mae gofyn eu gwella'n sylweddol, ac mae hefyd yn nodi'n glir pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd. Ategir yr adroddiad gan offeryn rhyngweithiol hefyd sydd wedi esblygu trwy gydol 2021. Dylid canmol yr offeryn fel arfer da hefyd. Gan ddilyn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd wedi

[6] Adroddiad Darganfod: Deall profiad staff ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ystod pandemig 2020-21

mabwysiadu fframwaith perfformiad i adlewyrchu pedwar cwadrant niwed[7]. Mae'r Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig yn defnyddio system sgorio i ddarparu trosolwg ar gyfer aelodau annibynnol o feysydd sy'n achosi pryder mewn perthynas â'r pedwar cwadrant.

57 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi addasu ei fframwaith rheoli perfformiad i ganolbwyntio ar Gwella Gyda'n Gilydd, gan gydnabod yr ymdeimlad cyfunol o weithredu a welwyd yn ystod y pandemig. Mae Gwella Gyda'n Gilydd yn dwyn ynghyd ystod o weithgareddau gwella, gan gynnwys mentrau ansawdd, a ategir gan drefniadau gwell i ddangos data allweddol. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi newid i ddefnyddio siartiau proses ystadegol i adrodd ar ei fesurau gwella. Mae'r ffordd yma o gyflwyno'n ei gwneud yn haws canfod pan fo angen newidiadau arwyddocaol i wella perfformiad. Caiff y meysydd hyn eu hamlygu yn yr Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig i'r Bwrdd a phwyllgorau. Mae Gwella Gyda'n Gilydd yn cael ei gyflwyno ar draws y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd.

58 Mae'r Bwrdd hefyd yn cael Adroddiad Gwella Profiad Cleifion rheolaidd sy'n tynnu ar amrywiaeth o gudd-wybodaeth gan gynnwys pryderon, adborth gan Wasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) y Bwrdd Iechyd, ac Ombwdsmon Sector Cyhoeddus Cymru. Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau hefyd yn cael adroddiadau manylach ar feysydd penodol sy'n achosi pryder, er enghraifft bregusrwydd gwasanaethau y tu allan i oriau meddygon teulu, a mynediad at wasanaethau iechyd meddwl.

59 Canfu ein gwaith llywodraethu ansawdd fod y Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd da a'i fod wedi alinio'i strategaethau a chynlluniau â risg a gwella ansawdd. Mae strwythurau ac adnoddau corfforaethol yn rhoi cymorth effeithiol ar gyfer llywodraethu a gwella ansawdd. Fodd bynnag, canfuom fod anghysonderau mewn trefniadau gweithredol yn cyfyngu ar sicrwydd. Canfuom hefyd fod gwaith i fonitro a chraffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau'n cael ei gryfhau trwy ddefnydd cynyddol o fesurau canlyniadau ansawdd. Mewn ymateb i'n gwaith, mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi dechrau safoni trefniadau llywodraethu ansawdd, gyda gwaith yn yr arfaeth i adolygu cyfleoedd o ran capasiti i wella'r trefniadau hyn ymhellach.

## Tracio cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio ac adolygu

60 Mae gan y Bwrdd Iechyd broses sydd wedi hen ennill ei phlwyf ar gyfer tracio argymhellion archwilio ac adolygu. Yn ogystal ag archwilio mewnol ac allanol, mae'r broses hefyd yn cynnwys argymhellion gan ystod eang o gyrff rheoleiddio ac adolygu allanol eraill.

61 Fel rhan o'i drefniadau llywodraethu diwygiedig i ymateb i'r pandemig, fe nododd y Bwrdd Iechyd ddull a oedd yn amlygu cyfres o argymhellion â blaenoriaeth uchel y

[7] Niwed o ganlyniad i COVID-19 ei hun, GIG a system gofal cymdeithasol wedi'u gorlethu, lleihad mewn gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â COVID-19 ac o gamau cymdeithasol/ cyfyngiadau symud ehangach.

byddai angen mynd i'r afael â hwy a'u tracio. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi bod yn goruchwylio'r argymhellion hyn yn ystod y pandemig ond erbyn hyn mae wedi dechrau cryfhau ei ffocws ar argymhellion y rhoddir blaenoriaeth is iddynt sy'n dechrau cyrraedd terfynau amser a wedi'u hailflaenoriaethu.

62 Yn ystod y pandemig, mae gwasanaethau a chyfarwyddiaethau wedi aros yn atebol am yr holl argymhellion sy'n gysylltiedig â'r meysydd cyfrifoldeb. Mae adroddiad deufisol i'r holl wasanaethau a chyfarwyddiaethau sy'n nodi'r argymhellion sy'n dal heb eu rhoi ar waith ac yn gofyn am ddiweddariad wedi cael ei gadw yn ystod y pandemig. Mae argymhellion sydd heb eu rhoi ar waith a bylchau mewn diweddariadau'n cael eu monitro gan y Tîm Gweithredol. Mae crynodeb o statws yr holl argymhellion sydd heb eu rhoi ar waith yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ymhob cyfarfod, a lle nad oes cynnydd yn cael ei wneud, mae proses uwchgyfeirio yn ei lle i ddod â chyfarwyddwyr gweithredol i'r pwyllgor i ddarparu diweddariad.

63 Ym Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg mis Hydref, adroddwyd ar gyfanswm o 244 o argymhellion[8], y cafodd 86 eu nodi fel rhai a oedd ar ei hôl hi o'i gymharu â'r amserlen. Mewn perthynas ag Archwilio Cymru'n benodol, dim ond dau argymhelliad y nodwyd eu bod heb eu rhoi ar waith. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd wedi bod yn darparu diweddariad yn rheolaidd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar asesiadau strwythuredig blaenorol. Mae'r holl argymhellion o asesiadau strwythuredig blaenorol mewn perthynas â 2019 a chyn hynny naill ai wedi cael eu cwblhau neu eu cau. Rydym wedi darparu diweddariadau ar argymhellion asesiadau strwythuredig blaenorol a oedd yn dal ar agor yn 2020 yn **Atodiad 1**.

## Rheoli adnoddau ariannol

64 Fe wnaeth ein gwaith ystyried perfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd, ei reolaethau ariannol a'i drefniadau ar gyfer monitro perfformiad ariannol ac adrodd arno.

65 Canfuom **er bod y Bwrdd Iechyd yn dal i wynebu heriau ariannol sylweddol, ei fod wedi cynnal rheolaethau ariannol priodol a bod trefniadau monitro ac adrodd yn gadarn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n galed i gyflawni adferiad ariannol ond mae'n rheoli nifer o risgiau ac mae gwaith i gyflawni hynny'n cael ei rwystro gan gapasiti gweithredol i ddatblygu cynlluniau arbedion cylchol.**

[8] Roedd yr argymhellion hyn yn ymwneud ag Archwilio Cymru, Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Yr Uned Gyflawni, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Stratia Consulting, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Y Cyngor Iechyd Cymuned, Colegau Brenhinol ac Adolygiadau gan Gymheiriaid.

## Cyflawni amcanion ariannol

66 Canfuom **nad oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2020-21, gan ddiweddu'r flwyddyn â diffyg o £24.9 miliwn. Mae'r Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn i gyflawni ei gynllun ariannol ar gyfer 2021-22 ond mae'n rheoli nifer o risgiau a allai ddwyn canlyniadau ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol, a bydd yn parhau i fethu â chyflawni ei ddyletswyddau ariannol oherwydd diffyg wedi'i gynllunio ar ddiwedd y flwyddyn.**

### Perfformiad ariannol 2020-21

67 Ar ddiwedd 2020-21, methodd y Bwrdd Iechyd â chyflawni ei ddyletswydd ariannol i adennill costau yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw dros gyfnod treigl o dair blynedd. Nododd y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £24.9 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, a diffyg dros gyfnod treigl o dair blynedd o £95.3 miliwn ar gyfer y cyfnod 2018-21. Fodd bynnag, roedd diffyg ariannol diwedd blwyddyn y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21 o fewn y cyfanswm rheoli diffyg y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, sef £25.0 miliwn. Fe gwrddodd y Bwrdd Iechyd â'i Derfyn Adnoddau Cyfalaf o £34.5 miliwn, gan nodi tanwariant o £0.1 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

68 Cafodd COVID-19 effaith sylweddol ar gostau refeniw'r Bwrdd Iechyd a nodwyd yn ei gynllun ariannol 2020-21. Yn ystod y flwyddyn ariannol, cafodd y Bwrdd Iechyd £133 miliwn yn ychwanegol o gyllid gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys £12.3 miliwn o gyllid cyfalaf. Roedd hwn wedi'i fwriadu i gefnogi ymateb y Bwrdd Iechyd i'r pandemig, gan gynnwys y defnydd parhaus o ysbytai maes, a sefydlu'r rhaglenni Profi, Olrhain, Diogelu a Brechu Torfol.

69 Cafodd y pandemig effaith ar allu'r Bwrdd Iechyd i gyrraedd ei darged arbedion wedi'u cynllunio o £34.2 miliwn hefyd. Ym mis 1, roedd £5.6 miliwn o gynlluniau arbedion wedi cael eu hadnabod. Ym mis 12, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni dim ond gwerth £3.4 miliwn o arbedion. Roedd yr arbedion a gyflawnwyd i'w priodoli'n bennaf i ostyngiad mewn costau staffio, cyfyngu ar gostau gweithgareddau heblaw cyflogau, a gostyngiad mewn costau a oedd yn gysylltiedig â gofal iechyd parhaus. Cafodd y methiant i gyflawni'r arbedion a oedd yn weddill ei wrthbwyso gan ostyngiadau mewn gwariant o ganlyniad yn uniongyrchol i'r pandemig.

70 Tra'r oedd o dan 'ymyrraeth wedi'i thargedu' fel rhan o Drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru ers mis Medi 2016, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu trefniadau cynllunio blynyddol mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio i ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) y gellir ei gymeradwyo. Oherwydd COVID-19, ataliwyd y gofyniad i fod â CTCI ar gyfer y cyfnod 2020-23; fodd bynnag, gan nad oedd gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer y cyfnod blaenorol, sef 2019-22, methodd â chyflawni ei ddyletswydd i fod â chynllun cymeradwy hyd at

31 Mawrth 2021. Ym mis Hydref 2020, cafodd y Bwrdd Iechyd ei isgyfeirio i statws 'monitro manylach'.

## Perfformiad ariannol 2021-22

71 Cafodd cynllun ariannol drafft y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021-22 ei rannu gyda'r Bwrdd ym mis Mawrth 2021 a'i gymeradwyo ym mis Mehefin 2021 cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'n nodi gorwariant rhagamcanol o £25.0 miliwn. Ym mis 7, nododd y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £14.4 miliwn a oedd yn gyson â'i broffil ariannol fwy neu lai, er bod cydnabyddiaeth y bu gorwariannau mewn rhai meysydd y mae'n ofynnol eu monitro'n fanwl, yn enwedig mewn perthynas â gofal heb ei drefnu.

72 Mae cynllun ariannol 2021-22 yn cynnwys targed arbedion ariannol o £16.1 miliwn. Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd cynlluniau i adnabod y lefel ofynnol o arbedion yn eu lle ar gyfer £8.1 miliwn, ond ambr oedd y statws a nodwyd ar gyfer yr holl gynlluniau, gyda nifer o'r cynlluniau wedi'u proffilio i gael eu cyflawni dros chwe mis olaf y flwyddyn ariannol. Ym mis 7, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni gwerth £6.2 miliwn o arbedion, ac roedd £3.0 miliwn ar y blaen i'w broffil yn bennaf o ganlyniad i gyflawni arbedion heb eu proffilio ym maes rheoli meddyginiaethau a gofal iechyd parhaus. Mae cynlluniau arbedion gwyrdd yn eu lle bellach ar gyfer £11.9 miliwn tan ddiwedd mis Mawrth 2022, gyda £4.3 miliwn yn ychwanegol o arbedion wedi'u hadnabod trwy ostyngiadau mewn costau sy'n gysylltiedig â COVID-19. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif llethol o arbedion yn rhai anghylchol, ac mae'r gallu i gyflawni cynlluniau arbedion dros y misoedd nesaf tra bo'r gwasanaeth dan bwysau sylweddol yn cael ei gydnabod yn risg gan y Bwrdd.

73 Mae'r cynllun ariannol hefyd yn tybio y ceir cyllid ychwanegol o £96.8 miliwn, gan Lywodraeth Cymru, i ariannu costau sy'n gysylltiedig â'r ymateb parhaus i'r pandemig. Ym mis 7, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cael £52.9 miliwn. Fodd bynnag, mae costau a ragwelir wedi codi bellach oherwydd costau cynyddol sy'n gysylltiedig â'r ymateb i COVID-19, ac mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn tybio mai £104.9 miliwn yw cyfanswm y cyllid y bydd yn ei gael gan Lywodraeth Cymru.

74 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddechrau'r flwyddyn â diffyg sylfaenol o £57.4 miliwn. Mae'n cydnabod yr heriau ariannol y bydd yn eu hwynebu dros y blynyddoedd nesaf a'r angen i fod yn ariannol gynaliadwy. Mae hefyd yn cydnabod bod effaith arbedion anghylchol yn 2021-22 yn debygol o arwain at ddiffyg sylfaenol uwch o £68.9 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn os na chaiff arbedion cylchol ychwanegol eu hadnabod yn y flwyddyn ariannol hon.

75 Fel rhan o'i Gynllun Adfer Blynyddol 2021-22, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi nifer o amcanion cynllunio uchelgeisiol, y mae dau ohonynt yn canolbwyntio ar gynllunio ariannol tymor canolig a hwy. Mae'r cyntaf yn canolbwyntio ar ddatblygu cynllun ariannol tair blynedd yn seiliedig ar welliannau a chyfleoedd sy'n ymwneud â gwerth, ac mae'r llall yn canolbwyntio ar ddatblygu cynllun ariannol dros bum mlynedd sy'n mantoli'r cyfrifon yn seiliedig ar roi strategaeth 20 mlynedd y Bwrdd Iechyd ar waith. Disgwylir i'r cynllun ariannol tair blynedd drafft gael ei gyflwyno i'r

Bwrdd ym mis Ionawr 2022 i gyd-fynd â datblygu'r cynllun tair blynedd ar gyfer 2022-25, gyda'r cynllun pum mlynedd i fod i gael ei gyflwyno ym mis Mawrth 2022.

## Rheolaethau ariannol

76 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn dal i gynnal rheolaethau ariannol priodol a'i fod yn gweithio'n galed i gryfhau rheolaeth ariannol i gefnogi cynaliadwyedd tymor hwy ond bod capasiti mewn timau gweithredol i gyflawni cynlluniau arbedion cylchol yn rhwystr i gyflawni.**

77 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gynnal rheolaethau ariannol priodol. Yn ystod chwarter cyntaf 2021-22, cynhaliwyd adolygiad o reolaethau ariannol ynghyd ag adolygiad ehangach o'r trefniadau llywodraethu wedi'u haddasu mewn ymateb i'r pandemig i sicrhau eu bod yn dal i fod yn addas ar gyfer y diben. Roeddem wedi nodi yn ein hadroddiad yn 2020 na fu angen gwneud unrhyw newidiadau i'r cyfarwyddiadau ariannol sefydlog, y cynllun dirprwyo a'r rheolau sefydlog. Felly y mae hi o hyd ac mae'r rheolaethau ariannol wedi parhau i weithio fel arfer.

78 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn parhau i gael adroddiad sicrwydd ariannol manwl yn rheolaidd sy'n darparu diweddariadau ar gaffael, colledion a thaliadau arbennig. Mae'r adroddiad yn darparu dadansoddiad manwl o nifer y Gweithredoedd Tendr Unigol, gwerthoedd a rhesymau pan na ddilynwyd gweithdrefnau caffael safonol. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys dadansoddiad manwl o dendrau cystadleuol a chontractau ymgynghoriaeth a ddyfarnwyd. Heblaw pan gyrhaeddodd nifer y Gweithredoedd Tendr Unigol eu hanterth yn y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021 oherwydd ystod o anghenion ar draws nifer o feysydd clinigol a chorfforaethol, mae nifer a gwerth Gweithredoedd Tendr Unigol wedi bod yn gyson fwy neu lai â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu dadansoddiad manwl o golledion sy'n cynnwys gordalu cyflogau ac, yn fwy diweddar, dileu brechlynnau COVID-19. Mae'r adroddiad yn enghraifft o arfer da, y mae cyrff eraill y GIG yn amcanu at ei efelychu, ac mae craffu rheolaidd arno'n parhau i ddigwydd.

79 Yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21, fe gynhaliodd y tîm Archwilio Mewnol adolygiad ymgynghorol o lywodraethu yn ystod y pandemig a amlygodd fod llywodraethu ariannol yn cael ei gynnal. Cafodd archwiliadau o drawsnewid y tîm cyllid, cronfeydd elusennol, cyfrifon derbyniadwy ac archwiliad dilynol o gontractio oll sicrwydd cadarnhaol. Cafodd archwiliadau o'r systemau talu a ddarperir gan Gydwasanaethau GIG Cymru, gan gynnwys y systemau taliadau contractwyr gofal sylfaenol, y gyflogres a chyfrifon taladwy i gyd sicrwydd cadarnhaol hefyd.

80 Mae'r holl benderfyniadau ariannol mewn perthynas â'r ymateb parhaus i COVID-19 yn cael eu hystyried gan y tîm gweithredol. Mae canolfannau costau ar wahân yn eu lle ar gyfer rhaglenni ymateb penodol. Adroddir ar gostau ymateb gweithredol trwy ganolfannau costau cyfarwyddiaethau, gyda phroses herio yn ei lle trwy bartneriaid busnes cyllid sy'n cyd-fynd â'r cyfarwyddiaethau. Ni wnaeth ein harchwiliad ni o'r datganiadau ariannol ganfod unrhyw faterion arwyddocaol o ran rheolaethau ariannol.

81 Caiff datblygiad cynlluniau ariannol tymor canolig a hwy'r Bwrdd Iechyd ei ategu gan esblygiad parhaus fframwaith cyfleoedd gwella a ddatblygwyd gyntaf yn gynnar yn 2020. Mae'r fframwaith yn adeiladu ar waith blaenorol a wnaed gan KPMG a fframwaith effeithlonrwydd yr Uned Cyflawni Ariannol. Yn awr mae hefyd yn tynnu ar ddata meincnodi gan CHKS[9] ac o rwydwaith meincnodi'r GIG, a chudd-wybodaeth sy'n dod o'r gwaith a sefydlodd y Bwrdd Iechyd yn ddiweddar gyda Lightfoot er mwyn canfod cyfleoedd i newid y ffordd y darperir gwasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi canfod nifer sylweddol o gyfleoedd gwella posibl i ddwyn gwerth gwell.

82 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu trywydd tuag at gynaliadwyedd sydd wedi goleuo Cynllun Adfer Blynyddol 2021-22 yn ogystal â datblygiad y cynlluniau ariannol tair a phum mlynedd. Mae'r trywydd hwn yn tynnu ar nifer o gyfleoedd gwella sy'n flaenoriaeth y cytunwyd arnynt, yn ogystal â gwaith ehangach a wnaed gan y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â gofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd.

83 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod ei ddiffyg ariannol wedi deillio i raddau helaeth o ganlyniad i'r ffordd y mae'n dyrannu ac yn defnyddio adnoddau. Mae'r Tîm Costio a Gwerth wedi gwneud gwaith yn ddiweddar i ganfod sut y defnyddir adnoddau ar draws y tair sir. Mae'r gwaith hwn wedi canfod mai gwasanaethau yn Sir Gâr yw prif ysgogydd diffyg sylfaenol y Bwrdd Iechyd, er bod gwasanaethau yn Sir Benfro'n ysgogi mwy o ddiffyg y pen. Ategwyd y gwaith gan ddatblygiad offeryn costio, sy'n galluogi timau gweithredol ar lefel clwstwr i ddeall sut y defnyddir adnoddau'n lleol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu amcan cynllunio newydd a fydd yn golygu bod adnoddau ariannol yn cael eu dyrannu ar sail ardal, gyda chymorth yr offeryn, fel ffordd o gyflawni arbedion effeithlonrwydd mewn gwasanaethau gofal eilaidd. Mae gwaith i ennyn ymgysylltiad timau clinigol a gweithredol yn mynd rhagddo cyn y gellir rhoi hyn ar waith yn llawn.

84 Mae capasiti o fewn y timau gweithredol i fod yn rhan o'r newid trafodiadol a'r trawsnewid y mae eu hangen i gyflawni'r cyfleoedd gwella, gan hefyd ymateb i'r pandemig parhaus, yn her serch hynny. Mae cynlluniau arbedion cylchol ar gyfer 2021-22 yn dal heb eu cadarnhau ac fel a grybwyllwyd ym **mharagraff 70**, mae costau'n cynyddu mewn rhai meysydd gwasanaeth. Mae cyfarfodydd ymgysylltiad system, fel rhan o ddull Gwella Gyda'n Gilydd y Bwrdd Iechyd, yn cael eu cynnal gyda chyfarwyddiaethau risg uchel a'r Cyfarwyddwyr Cyllid a Gweithrediadau lle mae angen mwy o 'afael a rheolaeth'.

85 Mae Gwasanaeth Atal Twyll y Bwrdd Iechyd yn darparu adroddiadau rheolaidd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, ac mae gwaith i gyflawni'r cynllun gwaith atal twyll ar y trywydd iawn. Ym mis Hydref 2020[10], fe adroddom ni fod y Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad cryf i atal twyll, bod ganddo drefniadau addas i roi

[9] Darparwr cudd-wybodaeth gofal iechyd a gwasanaethau gwella ansawdd yw CHKS.

[10] Archwilio Cymru, Effeithiolrwydd Trefniadau Atal Twyll ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Hydref 2020

cymorth i atal a chanfod twyll a'i fod yn gallu ymateb yn briodol lle mae twyll yn digwydd.

## Monitro ac adrodd

86 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn ar gyfer monitro a chraffu ar ei sefyllfa ariannol, a ategir gan adroddiadau cynhwysfawr a thryloyw.**

87 Mae craffu manwl yn dal i ddigwydd ar sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd, tan fis Mehefin 2020 gan y Pwyllgor Cyllid, ac wedi hynny gan y Pwyllgor Adnoddau Cynaliadwy newydd. Cynhelir cyfarfod cyswllt gyda Chadeirydd y pwyllgor hefyd yn y misoedd rhwng hynny. Cyflwynir diweddariad gan y Pwyllgor i bob un o gyfarfodydd y Bwrdd hefyd ynghyd ag adroddiad ariannol manwl i gael ei ystyried fel rhan o brif agenda'r Bwrdd. Mae papurau manwl wedi cael eu darparu ar gyfer y Bwrdd ar faterion penodol sy'n ymwneud â risg ariannol hefyd, megis yr anallu i gyflawni'r cyllid ychwanegol i gefnogi adferiad gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio.

88 Mae'r sefyllfa ariannol yn cael ei fonitro'n fanwl trwy gyfarfodydd rheolaidd y Tîm Gweithredol hefyd. Caiff trafodaethau eu goleuo gan y Cyfarfodydd Ymgysylltiad System, a thrwy'r gudd-wybodaeth a gesglir gan y partneriaid busnes cyllid. Mae cyfarfodydd cynaliadwyedd ariannol wedi cael eu sefydlu hefyd i ddatblygu'r cynlluniau ariannol tymor canolig a hwy ac i fonitro cynnydd.

89 Mae adroddiadau ariannol yn dal i fod yn gynhwysfawr iawn gyda gwybodaeth yn gyson â'r hyn a gyflwynir i Lywodraeth Cymru trwy'r ffurflenni monitro misol. Mae adroddiadau'n darparu darlun eglur o'r sefyllfa ariannol, heriau a risgiau, a'r camau lliniarol sy'n cael eu cymryd. Maent hefyd yn cynnwys esboniadau clir o'r gwahanol elfennau o gyllid y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cael a'r cynnydd a risgiau cysylltiedig gyda gwariant. Caiff adroddiadau eu hategu'n rheolaidd gan becyn sleidiau sy'n galluogi aelodau annibynnol i ganolbwyntio ar faterion penodol. Caiff adroddiadau eu hategu'n rheolaidd hefyd gan ddadansoddiad data manwl, gyda pheth data ariannol allweddol bellach ar gael trwy ddefnyddio offer data rhyngweithiol.

# Atodiad 1

## Cynnydd yn erbyn argymhellion blaenorol

**Arddangosyn 1: cynnydd a wnaed gydag argymhellion y flwyddyn flaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Monitro cynlluniau cyflawni**<br>A1 Canfuom gyfle i leihau dyblygu posibl o ran sicrwydd rhwng y Pwyllgor Cynllunio Busnes a Pherfformiad a Grŵp Cyflawni'r Strategaeth Iechyd a Gofal. Dylai'r Bwrdd Iechyd egluro llinellau atebolrwydd Grŵp Cyflawni'r Strategaeth Iechyd a Gofal i sicrhau bod y risg o ddyblygu sicrwydd yn cael ei liniaru (2019). | **Wedi'i gau**<br>Cyn y pandemig roedd y Strategaeth Iechyd a Gofal yn cael ei fonitro trwy'r Pwyllgor Cynllunio Busnes a Pherfformiad ac fe gafodd Grŵp Cyflawni'r Strategaeth Iechyd a Gofal ei atal am y tro, gyda goruchwyliaeth ar gyflawni'r strategaeth yn gyfrifoldeb i'r tîm gweithredol. Cafodd y Pwyllgor Cynllunio Busnes a Pherfformiad ei ddiwygio wedi hynny i ffurfio'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Sicrwydd Perfformiad. Mae newidiadau dilynol i drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd bellach wedi arwain at symud cyfrifoldeb am fonitro a chraffu ar gyflawni strategaeth y Bwrdd Iechyd i Bwyllgor Datblygu Strategol a Chyflawni Gweithredol newydd a gyfarfu am y tro cyntaf ym mis Awst 2021. |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Adolygiadau rheoli perfformiad**<br>A2 Canfuom nad yw'r Adolygiadau Perfformiad Gweithredol yn berthnasol i gyfarwyddiaethau corfforaethol, ac eithrio Ystadau. Dylai'r Bwrdd Iechyd gymhwyso Adolygiadau Perfformiad Gweithredol i gyfarwyddiaethau corfforaethol nad ydynt wedi'u cynnwys o fewn y broses yn barod (2019). | **Wedi'i gau**<br>Cafodd cyfarfodydd rheoli perfformiad ffurfiol gyda'r Tîm Gweithredol eu hatal yn ystod ton gyntaf y pandemig. Mae gwaith wedi parhau i sicrhau bod cyfarwyddiaethau'n dal i gael gwybodaeth am berfformiad, gyda grŵp llywio yn ei le i ddatblygu dangosfwrdd perfformiad. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cymeradwyo proses i weithredu ei ddull Gwella Gyda'n Gilydd sy'n ymegnïo i gyflawni dull colegaidd lle mae gwella yn y cwestiwn. |
| **Ymgysylltu â staff**<br>A3 Canfuom fod cyfle i rymuso'r gweithlu ehangach i gyfrannu at yr agenda drawsnewid. Dylai'r Bwrdd Iechyd roi datrysiadau ymarferol ar waith i gynnwys y gweithlu ehangach yn y rhaglen newid, er enghraifft trwy adnabod hyrwyddwyr newid o fewn gwasanaethau unigol (2019). | **Wedi'i gau**<br>Cyn y pandemig, roedd y Bwrdd Iechyd wedi datblygu Rhaglen Drawsnewid i gyflawni'r newidiadau yr oedd eu hangen i roi cymorth i wireddu ei weledigaeth strategol 20 mlynedd. Oherwydd effaith pandemig COVID-19, cafodd y Rhaglen Drawsnewid ei hatal am y tro. Trwy gydol pandemig COVID-19, mae staff wedi bod yn flaenllaw yng ngwaith y Bwrdd Iechyd i ymateb i'r pandemig a'i reoli. Mae dull y Bwrdd Iechyd o fynd ar drywydd trawsnewid wedi newid ers hynny gyda'r Grŵp Llywio Trawsnewid wedi'i sefydlu, er enghraifft, sy'n cynnwys ymgysylltu llyfn â staff. Mae staff hefyd wedi bod yn rhan o waith darganfod y Bwrdd Iechyd. |
| **Cyfarfodydd gweithredol** | **Wedi'i gau** |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| A3 I ryddhau capasiti ar gyfer timau gweithredol a gweithrediadol, ac i alluogi ffocws mwy cydgysylltiedig ar ddefnyddio adnoddau, dylai'r Bwrdd Iechyd symleiddio nifer y cyfarfodydd dwyn i gyfrif ac adolygu perfformiad gyda thimau gweithrediadol trwy:<br>a) adolygu mynychder ac amseriad y cyfarfodydd hyn;<br>b) adolygu lleoliad y cyfarfodydd hyn, i wella amlygrwydd y tîm gweithredol; ac<br>c) cysoni'r cyfarfodydd hyn â sesiynau rheoli sydd wedi'u cynnwys o fewn cynlluniau swyddi ar gyfer cyfarwyddwyr clinigol i'w galluogi i gyfranogi'n llawn (2018) | Daeth cyfarfodydd Rhaglen Gweddnewid Perfformiad a Dwyn i Gyfrif y Bwrdd Iechyd i ben ym mis Mawrth 2020. Cafodd adolygiadau rheoli perfformiad ffurfiol gyda'r tîm gweithredol eu hatal yn ystod ton gyntaf y pandemig hefyd (gweler A2 2019). Cyn y pandemig, roedd gwaith sylweddol wedi cael ei wneud i ddatblygu arweinwyr clinigol ar draws y timau gweithredol a sicrhau capasiti o fewn cynlluniau swyddi i alluogi presenoldeb mewn cyfarfodydd allweddol. Mae arweinwyr clinigol wedi bod yn allweddol i ymateb y Bwrdd Iechyd i'r pandemig ac maent bellach yn rhan o'r Cyfarfod Busnes Gweithredol. |
| **Cynllunio strategol**<br>A4 I sicrhau y cyflawnir ei strategaeth, dylai'r Bwrdd Iechyd geisio datrys y cais sydd heb ei ganiatáu eto am gyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r capasiti y mae ei angen i roi'r strategaeth ar waith o fewn y graddfeydd amser bwriadedig (2018). | **Wedi'i gau**<br>Cyn y pandemig, roedd y Bwrdd Iechyd wedi ceisio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ei Raglen Drawsnewid. Oherwydd effaith y pandemig, cafodd y Rhaglen Drawsnewid ei hatal am y tro. Mae dull y Bwrdd Iechyd o fynd ar |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| | drywydd trawsnewid a gwaith ehangach i gyflawni ei strategaeth wedi newid ers hynny. |
| **Strwythur gweithredol**<br>A8 I ddangos arweinyddiaeth, mae angen i amlygrwydd y cyfarwyddwyr gweithredol ar draws y Bwrdd Iechyd ymestyn i bob cyfarwyddwr ac mae angen rhoi ystyriaeth i gynnal cyfarfodydd gyda thimau gweithrediadol i ffwrdd o'r pencadlys lle bynnag y bo'n bosibl (2017). | **Wedi'i gwblhau**<br>Cyn y pandemig, roedd cyfarwyddwyr gweithredol wedi dod yn llawer mwy amlwg trwy'r adolygiadau perfformiad gweithredol; fodd bynnag, cafodd y rhain eu hatal am y tro ym mis Mawrth 2020. Yn ystod y pandemig, mae'r cyfarwyddwyr gweithredol wedi bod yn amlwg ar draws y Bwrdd Iechyd i ddangos cefnogaeth i staff yn ystod y cyfnod anodd hwn. I gydymffurfio â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol COVID-19 Llywodraeth Cymru, mae cyfarwyddwyr gweithredol wedi lleihau eu presenoldeb yn y pencadlys ac yn lle hynny maent wedi cymryd cyfleoedd i weithio ar draws amrywiaeth o safleoedd y Bwrdd Iechyd pan fu'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.